Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2025

## Mae'r adroddiad yn dangos beth rydyn ni'n ei wneud i helpu plant yng Nghymru i fyw'n dda



Rhagfyr 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Adroddiad Cynnydd y Strategaeth Tlodi Plant 2025.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 37**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** https://www.llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Beth ydy'r adroddiad yma................................................................ 4**

**Am ein gwaith ........................................................................... 6**

Amcan 1 – lleihau costau a gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd fwy o arian ............................................................ 6

Amcan 2 – cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi............................................................................ 14


Amcan 3 – cefnogi lles plant a theuluoedd ........................ 20

Amcan 4 – Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a theulu'n cael eu trin yn dda gan wasanaethau ................................ 29

Amcan 5 – Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n dda gyda'i gilydd........................................................................ 33

**Geiriau anodd ......................................................................... 37**


# Beth ydy'r adroddiad yma




Rydyn ni wedi gwneud cynllun newydd i stopio **tlodi** plant yng Nghymru.



**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.


Hawdd ei Ddeall


Strategaeth Tlodi Plant

Ein cynlluniau i wneud yn siŵr bod plant yng Nghymru yn byw yn dda


Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Tlodi Plant**'.

**Rhagfyr 2023**

Fe wnaethon ni rannu'r cynllun ym mis Ionawr 2024. Rydych chi'n gallu darllen amdano ar ein gwefan: Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024.




Rydyn ni'n gosod 5 nod mawr. Rydyn ni'n eu galw'n **amcanion**.




Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob 3 blynedd i ddangos beth rydyn ni wedi'i wneud. Mae hyn yn cael ei alw yn **adroddiad cynnydd**.



Mae'r adroddiad cynnydd yma yn dangos:

- y gwaith rydyn ni'n ei wneud i stopio **tlodi** plant
- beth rydyn ni wedi ei wneud.

# Am ein gwaith



## Amcan 1 – lleihau costau a gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd fwy o arian

### Beth rydyn ni wedi'i wneud

**Iechyd**



Mae pobl yn gallu cael presgripsiynau am ddim.





Mae menywod yn gallu cael cynhyrchion mislif am ddim.



O fis Chwefror 2026, mae rhieni newydd sy'n gymwys i gael cymorth ychwanegol yn gallu cael eitemau ar gyfer eu babanod. Bwndeli Babi ydy y rhain.




Rydyn ni'n helpu teuluoedd i brynu bwyd, llaeth a fitaminau iach drwy'r **Cynllun Cychwyn Iach**.




Mae plant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cael archwiliadau am ddim gyda deintydd.



Mae llawer o ysgolion yn rhedeg rhaglen brwsio dannedd.



Mae plant a phobl ifanc dan 16 oed yn cael profion llygaid am ddim.




Rydyn ni wedi rhannu canllawiau i helpu plant a phobl ifanc sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol.




Mae gennym ni gynllun 10 mlynedd o’r enw **Pwysau Iach: Cymru Iach** i helpu pobl i gadw’n iach.




Mae Rhaglen Plentyn Iach Cymru yn rhoi archwiliadau iechyd a chymorth o enedigaeth hyd at 7 oed.

## Budd-daliadau



Rydyn ni’n gwneud y system **Budd-daliadau Lles** yn haws i’w defnyddio.



Mae **budd-daliadau lles** yn arian gan lywodraeth y DU i gefnogi pobl. Er enghraifft Credyd Cynhwysol, Budd-dal Plant neu Taliadau Annibyniaeth Personol.



Rydyn ni’n gweithio i wneud newidiadau fel mai dim ond **unwaith** fydd angen i deuluoedd roi eu gwybodaeth i gael:

- Cymorth treth gyngor
- Prydau ysgol am ddim
- Grantiau ysgol




Y nod ydy bod hyn yn barod ar draws Cymru erbyn Ebrill 2026.



Mae teuluoedd â llai o arian yn talu llai o dreth gyngor. Mae dros 256 mil o deuluoedd yn cael y gefnogaeth yma.




Doedd dim rhaid i dros 216 mil o deuluoedd dalu unrhyw Dreth Gyngor.



Does dim rhaid i bobl sy’n gadael gofal o dan 25 oed dalu’r dreth gyngor. Mae pobl sy’n gadael gofal yn oedolion ifanc sy’n gadael gofal maeth neu breswyl.

## Cyllid



Mae yna lawer o grantiau a chyllid i helpu teuluoedd. Er enghraifft:

- Mae'r **Gronfa Cyngor Sengl** yn helpu pobl i gael cyngor, arian a lleihau eu dyledion.

- Mae'r Gronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn yn rhoi arian brys neu eitemau cartref i deuluoedd mewn angen.

- Mae'r  cynllun **peilot Incwm Sylfaenol i Rai sy'n Gadael Gofal yng Nghymru** yn rhoi arian i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

## Bwyd



Mae pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru yn cael prydau ysgol am ddim.




Mae llawer o blant yn cael llaeth a brecwast am ddim yn yr ysgol.



Mae ysgolion yn cael cyllid ar gyfer rhaglenni  Bwyd a Hwyl yn yr haf. Yn Bwyd a Hwyl mae plant yn bwyta prydau iach, yn rhoi cynnig ar chwaraeon, ac yn gwneud celf neu goginio.




Rydyn ni'n helpu busnesau lleol i gefnogi prosiectau bwyd cymunedol.



Mae prosiectau fel FareShare Cymru a banciau bwyd yn helpu teuluoedd i gael bwyd iach a lleihau gwastraff.

**Gwresogi**



Mae Sefydliad Banc Tanwydd yn rhoi talebau tanwydd i helpu gyda chostau gwresogi a thrydan.




Mae'r rhaglen Cartrefi Cynnes yn helpu teuluoedd i arbed ynni ac arian. Maen nhw'n rhoi cymorth a grantiau i wella cartrefi ac arbed ynni.

**Addysg**



Mae costau gwisg ysgol yn gallu bod yn uchel.




Fe wnaethon ni rannu canllawiau yn 2023 i helpu ysgolion i gadw costau gwisg yn isel.



Fe wnaeth Plant yng Nghymru ysgrifennu canllaw i ysgolion hefyd.





Mae'r Grant Hanfodion Ysgol yn helpu teuluoedd i brynu gwisgoedd ac offer.



Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn helpu pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed i aros mewn addysg.



Yn 2024 i 2025 fe wnaethon ni weithio gydag ysgolion mewn 6 maes gwahanol. Roedden nhw'n edrych  ar sut beth oedd yr ysgol i blant sy'n byw mewn tlodi.




Fe wnaethon nhw ddod o hyd i gamau mae ysgol yn gallu eu cymryd i wella pethau a lleihau costau.



Rydyn ni'n dal i weithio ar beth wnaethon nhw ddarganfod. Fe fyddwn ni'n rhoi cyllid i greu adnoddau, canllawiau a chyngor ar-lein.



# Amcan 2 – cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi

## Beth rydyn ni wedi'i wneud

**Y dechrau gorau mewn bywyd**



Mae **Dechrau'n Deg** yn cefnogi plant ifanc yn yr ardaloedd mwyaf tlawd. Mae'r rhaglen yn helpu teuluoedd i gael gofal a chymorth plant am ddim.



Mae'r rhaglen [Siarad gyda Fi] yn helpu plant gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Addysg**




Mae grantiau, fel y **Grant Datblygu Disgyblion**, yn helpu plant o ardaloedd mwy tlawd i wneud yn well yn yr ysgol.



Mae cynlluniau ac adnoddau newydd i helpu plant ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol**.



Mae Medr yn gweithio i wneud addysg yn deg i bob dysgwr 16 oed a hŷn.



Mae gofalwyr di-dâl yn cael cymorth drwy'r Cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr.



Mae'r Tasglu Hawliau Anabledd yn gweithio i gael gwared ar rwystrau i bobl anabl.




Fe wnaeth eu gwaith helpu i wneud cynllun o'r enw Cynllun Hawliau Pobl Anabl.



Mae grantiau a chanllawiau i gefnogi:

- Plant lleiafrifoedd ethnig – er enghraifft, plant du ac Asiaidd.
- Plant Sipsiwn, Roma, a Theithwyr yn yr ysgol.



Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn helpu rhieni sy'n gweithio. Mae'r rhaglen yn rhoi 30 awr o ofal plant am ddim bob wythnos i blant 3 i 4 oed.

## Economi Cymru a gwaith teg



Mae economi Cymru yn meddwl faint o arian sydd gan Gymru fel gwlad.



Rydyn ni’n helpu pobl i gael swyddi ar gyflog teg.



Rydyn ni’n gweithio gyda busnesau i greu swyddi da.




Mae yna raglenni i helpu pobl ifanc ac oedolion i ddysgu sgiliau a dod o hyd i waith.



Mae cefnogaeth i bobl anabl a gofalwyr i ddod o hyd i swyddi a chadw swyddi.




Mae'r Warant Person Ifanc yn helpu pobl ifanc 16 i 24 oed i gael addysg, hyfforddiant neu waith.




Mae pobl yn gallu cael help gyda hunangyflogaeth, gwirfoddoli, neu fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl salwch.



Rydyn ni'n gweithio i gau bylchau cyflog a gwneud gwaith yn deg i bawb.




Mae'r rhaglen Sgiliau Hyblyg yn helpu busnesau i hyfforddi staff a gwella sgiliau.

**Cludiant**



Mae teuluoedd sy'n byw y tu allan i drefi yn gallu ei chael hi'n fwy anodd cyrraedd gwasanaethau.



Mae bysiau yn gallu bod yn gostus neu'n anodd eu defnyddio. Yn enwedig i bobl anabl.



Rydyn ni'n gweithio i wneud bysiau yn rhatach, yn fwy diogel ac yn haws i bobl ifanc.

# Amcan 3 – cefnogi lles plant a theuluoedd

## Beth rydyn ni wedi'i wneud

**Cymunedau**



Mae adeiladau cymunedol yn helpu i ddarparu lle ar gyfer pethau fel:

- Grwpiau Chwarae
- Cymorth i rieni
- Banciau bwyd
- Cyngor



Mae'r rhaglen **Cyfleusterau Cymunedol** yn rhoi arian i wella adeiladau cymunedol a mannau gwyrdd, fel parciau.




Mae rhai canolfannau yn cynnig gofal iechyd a chymdeithasol mewn 1 lle i deuluoedd.



Mae **Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned** yn gweithio'n agos gyda'u hardal leol.



Maen nhw'n cefnogi plant a theuluoedd ac yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol.

## Chwarae, chwaraeon a chyfleoedd eraill



Mae'r prosiect Gwyliau Byd Chwarae yn darparu gweithgareddau a bwyd iach yn ystod gwyliau'r ysgol. Rydyn ni'n rhoi cyllid ar gyfer y gwaith yma.



Mae yna grwpiau eraill sydd hefyd yn rhoi gweithgareddau am ddim. Er enghraifft, mae **Urdd Gobaith Cymru** yn cynnig gwyliau yn eu gwersylloedd i blant sydd ddim yn gallu fforddio gwyliau.



Mae gan Gymru gyfreithiau sy'n cefnogi chwarae plant.



Mae cynghorau yn cael cyllid i wneud meysydd chwarae yn ddiogel ac yn hawdd i'w defnyddio.



Mae pobl ar **fudd-daliadau lles** penodol yn gallu ymweld â safleoedd hanesyddol Cadw am £1.



Mae elusennau a chynghorau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc.



Mae sefydliad gwaith ieuenctid cenedlaethol yn cael ei sefydlu. Fe fyddan nhw'n helpu i reoli a chefnogi gwaith ieuenctid.




Mae ffyrdd yn fwy diogel i blant oherwydd bod terfynau cyflymder wedi'u gostwng.



Rydyn ni'n rhoi arian i **Chwaraeon Cymru** i helpu clybiau chwaraeon fel bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan.

## Cefnogi teuluoedd



Mae’r **grant Plant a Chymunedau** yn rhoi arian i gynghorau lleol am 3 blynedd.



Mae’r arian yma yn helpu rhaglenni fel **Teuluoedd yn Gyntaf**, **Dechrau’n Deg**, a **Chymorth Rhianta Ymyrraeth Gynnar**.



Rydyn ni’n cefnogi rhieni trwy ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Mae’n rhoi cyngor, awgrymiadau a chefnogaeth i rieni.

## Iechyd meddwl a lles



Mae iechyd meddwl gwael yn gallu gwneud bywyd yn fwy anodd i rieni a phlant.




Mae gennym ni gynllun i wella iechyd meddwl ar gyfer pob oedran.



Mae’r cynllun yn canolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae prosiectau fel **Nodded** yn helpu plant ag anghenion iechyd meddwl neu sydd mewn perygl.



Mae gwasanaethau iechyd meddwl plant wedi gwella ac mae amseroedd aros yn fyrrach.




Mae arian yn cael ei wario i helpu plant ag ADHD ac awtistiaeth.




Mae amseroedd aros am asesiadau yn cael eu lleihau.



Mae byrddau iechyd yn cael cyllid i roi cymorth i blant pan fydd angen.

**Digartrefedd a thai**



Mae digartrefedd yn gwneud bywyd yn fwy anodd i blant a theuluoedd.



Rydyn ni eisiau stopio pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref.



Rydyn ni'n gweithio gyda chynghorau a grwpiau tai i helpu teuluoedd.



Mae bron i £220 miliwn ar gael i gefnogi gwasanaethau digartrefedd rhwng 2025 a 2026.



Mae llai o deuluoedd yn byw mewn tai dros dro.




Fe fydd deddf newydd yn helpu i stopio digartrefedd a gwella cefnogaeth. Enw hyn ydy Bil Digartrefedd a Dyraniad Tai Cymdeithasol (Cymru).



Mae mwy o gartrefi cyngor yn cael eu hadeiladu. Fe fydd dros 1 mil o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda chyllid ychwanegol.



Mae cyllid **Tai a Gofal** i helpu plant ag anghenion cymhleth.



Mae addasiadau cartref yn helpu pobl i fyw’n ddiogel. Yn enwedig pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Mae addasiad cartref yn meddwl gwneud newidiadau i dŷ.



# Amcan 4 – Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a theulu’n cael eu trin yn dda gan wasanaethau

## Beth rydyn ni wedi’i wneud

**Gwneud yn siŵr bod gan blant a phobl ifanc lais.**



Mae Cymru’n dilyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Dyma gyfraith sy’n amddiffyn hawliau plant.



Rhaid i holl bolisi’r llywodraeth feddwl am hawliau plant.



Mae Plant yng Nghymru yn helpu plant a phobl ifanc i rannu beth maen nhw’n feddwl gyda’r llywodraeth.



Mae’r Comisiynydd Plant yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni hawliau plant.

## Darparu gwasanaethau mewn ffordd garedig



Rydyn ni'n darparu cyllid ar gyfer Hyb ACE Cymru i gefnogi gwaith wedi ei seilio ar **drawma**.



**Trawma** ydy pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd, ac mae'n gwneud i rywun deimlo'n drist neu'n ofnus am amser hir.

Mae **ystyriol o drawma** yn meddwl deall, gofalu ac ymateb i drawma mewn ffordd sy'n helpu pobl i wella.



Rydyn ni wedi rhoi mwy o arian ar gyfer y gwaith yma yn 2025 i 2026.



Mae Hyb ACE a Straen Trawmatig Cymru yn darparu hyfforddiant a dysgu ar-lein am ddim.



Nod y prosiectau yma ydy gwella iechyd a lles pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru.



Mae offer fel pecyn cymorth TrACE yn helpu sefydliadau i gefnogi pobl mewn ffordd garedig, wedi ei seilio ar **drawma**.



Rydyn ni'n ariannu **Hybiau Cynnes**, sy'n fannau cymunedol diogel a chyfeillgar. Maen nhw'n cynnig cyngor, cefnogaeth, ac yn helpu i leihau unigrwydd.

**Cefnogi ysgolion i wella**



Mae ysgolion yn cael arian i helpu plant i deimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi.



Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gynlluniau i gefnogi iechyd meddwl.



Mae cwnsela ar gael i bob plentyn, gan gynnwys plant ifanc.



Mae Estyn yn helpu ysgolion i ddeall **tlodi**. Maen nhw'n rhannu ffyrdd gorau o weithio i ddelio â **thlodi**. Mae Estyn yn sefydliad sy'n archwilio ysgolion a mannau dysgu yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod plant ac oedolion yn cael addysg dda.



Mae ysgolion yn creu mannau croesawgar i bob plentyn. Gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



Mae rhai plant yn wynebu problemau ychwanegol oherwydd pethau fel hil, anabledd neu ryw.



Rydyn ni'n gweithio i wneud pethau'n deg i bawb.



# Amcan 5 – Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n dda gyda'i gilydd

## Beth rydyn ni wedi'i wneud

**Rhannu syniadau**



Rydyn ni'n gweithio gyda chynghorau, elusennau a chymunedau i helpu plant mewn **tlodi**.



Mae pobl sy'n byw mewn **tlodi** wedi rhannu eu profiadau i wella gwasanaethau.



Sefydlwyd y **Grŵp Cyfeirio Allanol Tlodi Plant** yn 2023.



Mae hyn yn helpu i wneud cynlluniau gwell i leihau **tlodi** plant.



Mae'r grŵp yma yn helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth.



Cafodd dros 7,300 o bobl gymorth rhwng 2024 a 2025 trwy wahanol brosiectau o dan y Grant Arloesi Tlodi Plant a Chymorth I Gymunedau.



Rydyn ni'n rhannu'r beth rydyn ni'n ei ddysgu fel bod teuluoedd yn gallu cael gwell cefnogaeth.

**Cydweithio**



Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn gyfraith sy'n helpu i stopio tlodi.



Mae gwasanaethau iechyd, ysgolion a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i helpu plant.



Mae NYTH/NEST yn gynllun i helpu plant a phobl ifanc i gael y cymorth iechyd meddwl a lles cywir.



Rhaid i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i edrych ar sut mae pobl yn gwneud yn eu hardal.



Rhaid iddyn nhw hefyd wneud cynllun lleol i wella lles.

## Cynyddu ymwybyddiaeth




Mae **Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant** yn rhoi arian i blant i'w ddefnyddio pan fyddan nhw'n troi'n 18 oed.




Sefydlwyd Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant wedi eu geni rhwng 2002 a 2011.



Does dim llawer o blant wedi hawlio eu harian eto.



Mae'r llywodraeth yn helpu pobl ifanc i gael yr arian yma ar gyfer ysgol, tai, neu anghenion eraill.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i stopio **tlodi** plant.

# Geiriau anodd

## Budd-daliadau lles

Mae budd-daliadau lles yn arian gan lywodraeth y DU i gefnogi pobl. Pethau fel Credyd Cynhwysol, Budd-dal Plant neu Daliadau Annibyniaeth Personol.

## Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan rywun y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.

## Trawma

Trawma ydy pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd, ac mae'n gwneud i rywun deimlo'n drist neu'n ofnus am amser hir.

## Ymwybodol o drawma

Mae ymwybodol o drawma yn meddwl deall, gofalu ac ymateb i drawma mewn ffordd sy'n helpu pobl i wella.